Papur (21)45
Eitem 2
I'w gyhoeddi'n allanol

**Cyfarfod y Bwrdd: 17 Rhagfyr 2021**

---

**EITEM AR YR AGENDA: 2**

---

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | **Y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio** |
| **Diben y Papur:** | Cadarnhau'r ymrwymiad i'r Rhaglen Lywodraethu wedi'i diweddaru a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y Cytundeb Cydweithio. |
| **Camau sy'n ofynnol gan y Bwrdd:** | Gofynnir i'r Bwrdd: nodi cyhoeddi Rhaglen Lywodraethu estynedig sy'n ymgorffori'r Cytundeb Cydweithio a chyflwyno unrhyw sylwadau ar oblygiadau'r Cytundeb Cydweithio. |
| **Swyddog sy'n cyflwyno'r papur:** | Rachel Garside-Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr y Cytundeb Cydweithio a Catrin Sully, Pennaeth Swyddfa'r Cabinet |
| **Papur wedi'i baratoi / ei glirio gan:** | Rachel Garside-Jones/ Catrin Sully<br>***Wedi'i glirio gan Des Clifford*** |
| **Ymgysylltiad / Safbwynt TUS** | Roedd yr Undebau Llafur yn cymryd rhan yn y cyfnod cyn i'r Cytundeb gael ei lofnodi a byddant yn parhau i gymryd rhan wrth iddo gael ei gyflawni. |
| **Dyddiad cyflwyno i'r Ysgrifenyddiaeth:** | **Dydd Gwener 10 Rhagfyr** |

Papur (21)45
Eitem 2
I'w gyhoeddi'n allanol

## 1. Cefndir

Ym mis Mehefin, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei *Rhaglen Lywodraethu* a oedd yn cynnwys 245 o ymrwymiadau. Roedd y ddogfen wedi'i rhannu'n 96 o ymrwymiadau a oedd yn eiddo i'r Cabinet ar y cyd gyda'r gweddill yn gyfrifoldeb i Weinidogion portffolio unigol.

Ar 1 Rhagfyr, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i Gytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru sy'n cwmpasu 46 o feysydd o ddiddordeb cyffredin lle byddant yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu a goruchwylio'r gwaith cyflawni dros gyfnod o dair blynedd.

Ni fydd Plaid Cymru yn cael ei chynrychioli gan benodiadau Gweinidogol yn Llywodraeth Cymru a Gweinidogion Cymru fydd yn gyfrifol yn ffurfiol ac yn gyfreithiol am wneud penderfyniadau.

## *2. Y Rhaglen Lywodraethu - Diweddariad*

Er mwyn cynnal un set o flaenoriaethau'r llywodraeth, datblygwyd Rhaglen Lywodraethu wedi'i diweddaru a gyhoeddwyd ar 7 Rhagfyr. Gwnaeth y Prif Weinidog ddatganiad i'r Senedd ar 7 Rhagfyr yn ei gwneud yn glir mai'r Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad yw'r unig raglen gan y llywodraeth.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu estynedig yn cynnwys 284 o ymrwymiadau. Mae 115 o'r rhain yn eiddo i'r Cabinet ar y cyd, gyda'r Gweinidogion portffolio unigol yn gyfrifol am gyflawni'r 169 sy'n weddill.

Mae'n cynnwys 70 o ymrwymiadau sy'n cwmpasu'r meysydd yn y Cytundeb Cydweithio y mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i weithio gyda Phlaid Cymru i'w cyflawni. Mae ymgorffori'r ymrwymiadau hyn yn y Rhaglen Lywodraethu yn darparu un fframwaith lle gall y gwasanaeth sifil a phartneriaid cyflawni ganolbwyntio eu hymdrechion. Mae'r ddogfen Cytundeb Cydweithio: mecanweithiau yn nodi'r trefniadau ar gyfer cydweithio. Nid yw'r Rhaglen Lywodraethu yn disodli'r manylion ym maniffesto Llafur Cymru nac yn y Cytundeb Cydweithio gyda'r ddwy ddogfen yn rhoi mwy o fanylion am y disgwyliad o ran cyflawni. Yn ogystal â'r Cytundeb Cydweithio lefel uchel a gyhoeddwyd ar 22 Tachwedd, mae tabl polisi manylach a gyhoeddwyd ar 1 Rhagfyr gyda mwy o fanylion cefndir.

Bydd y Rhaglen Lywodraethu estynedig yn cael ei monitro gan ddefnyddio gwybodaeth gan BIRT a'i hadrodd i'r Cabinet ac ExCo. Bydd yr ymrwymiadau hynny sy'n dod o fewn cwmpas y Cytundeb Cydweithio yn parhau i fod yn rhan o'r trefniadau monitro cyffredinol, ond bydd hefyd yn ganolbwynt i'r mecanweithiau a ddatblygwyd i oruchwylio'r Cytundeb.

Bydd mynediad at Aelodau Dynodedig Plaid Cymru ar gyfer pob maes yn y Rhaglen Lywodraethu a gwmpesir gan y Cytundeb yn cael ei hwyluso gan Uned y Cytundeb Cydweithio newydd o fewn Llywodraeth Cymru.

Papur (21)45
Eitem 2
I'w gyhoeddi'n allanol

**3.** ***Y Cytundeb Cydweithio - Diweddariad***

3.1 Cyhoeddwyd un Aelod Dynodedig Arweiniol o Blaid Cymru – Sian Gwenllian- gan Blaid Cymru ar 1 Rhagfyr a'r disgwyl yw mai dim ond un Aelod Dynodedig arall a benodir i ddechrau o gofio bod Plaid Cymru hefyd yn parhau i fod yn Wrthblaid gyda llefarwyr ar draws meysydd polisi, y mae llawer ohonynt y tu allan i'r Cytundeb. Adeg ysgrifennu, nid yw Cynghorwyr Arbennig y Blaid wedi'u cadarnhau eto. Mae'r ddogfen Mecanwaith sy'n nodi sut y dylai'r cytundeb weithredu wedi'i chyhoeddi yn ogystal â Chwestiynau Cyffredin/Canllawiau i Weision Sifil ar y Fewnrwyd.

3.2 Mae Uned y Cytundeb Cydweithio wedi'i sefydlu ac mae'n cynnwys cymorth swyddfa i'r Aelod Dynodedig sydd eisoes yn arwain yr ymgysylltiad cychwynnol â'r Gweinidogion a'u swyddogion. Cynhaliwyd y Bwrdd Goruchwylio cyntaf ar 3 Rhagfyr lle y cytunodd y Prif Weinidog ac Arweinydd Plaid Cymru ar y Cylch Gorchwyl, yr egwyddor o gael un Rhaglen Lywodraethu, a chael pedwar Cyd-bwyllgor Polisi yn adlewyrchu pedair thema'r Cytundeb. Mae'r Uned wedi cyfarfod â'r 17 Cyfarwyddwr ar draws Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am feysydd o fewn y Cytundeb ac mae'n hwyluso cyfarfodydd rhagarweiniol a dilynol gyda'r Gweinidogion i drafod ymrwymiadau penodol a sut y bydd y ddwy blaid yn cydweithio dros y cyfnod o dair blynedd. Mae trafodaethau ynghylch Cyllideb Llywodraeth Cymru wedi bod yn elfen ganolog ar y trafodaethau ers y cychwyn cyntaf. Y cytundeb sydd wedi'i wneud yn y maes hwn fydd y brif eitem i'w chynnwys yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Cyllid cyn i'r gyllideb gael ei chyhoeddi.

3.3 Y camau nesaf yw sefydlu a chynnal cyfarfodydd cyntaf y pedwar Cyd-bwyllgor Polisi; darparu cyngor cynnar ar amserlenni a blaenoriaethau cychwynnol; dyfnhau'r ymgysylltiad â'r Gweinidogion a'u swyddogion ar y meysydd blaenoriaeth allweddol; ac arwain y gwaith o ehangu'r ddealltwriaeth o oblygiadau'r Cytundeb ar draws y Llywodraeth a'i gadarnhau fel rhan o'r Rhaglen Lywodraethu ehangach.

3.4 Mae dyfodiad y cytundeb yn cyflwyno heriau newydd pwysig i staff yn y meysydd polisi hynny a gwmpesir gan y ddogfen y cytunwyd arni gyda Phlaid Cymru. Bydd y rhain yn wahanol eu natur i'r rhai sy'n gysylltiedig â chytundebau clymblaid sydd wedi dod i'r amlwg yn y gorffennol. Nid cytundeb clymblaid yw hwn ond bydd angen i waith datblygu polisi mewn meysydd a gwmpesir gan y Cytundeb yn awr gynnwys gwneud trefniadau priodol i ymgynghori â chynrychiolwyr y Blaid cyn i benderfyniadau gael eu gwneud gan y Gweinidogion. Bydd aelodau Plaid Cymru hefyd yn disgwyl bod yn gysylltiedig â chyfleu canlyniad y datblygiad polisi hwnnw maes o law. Bydd yn bwysig i dimau fod yn ymwybodol o hyn mewn perthynas â chynllunio gwaith ac wrth ddelio â chraffu boed yn y Senedd neu mewn mannau eraill.

3.5 Bydd yr un mor bwysig bod staff yn ymwybodol o'r mecanweithiau a'r codau y bwriedir iddynt lywodraethu'r ffordd y mae'r Cytundeb yn cael ei gynnal. Yn y dyddiau cynnar bydd rôl bwysig i'r Uned o ran cyfleu'r trefniadau hyn a sicrhau bod gweithrediad y Cytundeb yn adlewyrchu'r egwyddorion y

cytunwyd arnynt rhwng y Prif Weinidog ac Arweinydd Plaid Cymru. Mae'r canllawiau sydd wedi'u datblygu ar gyfer staff yn adlewyrchu'r un egwyddorion. Gofynnodd y Prif Weinidog i'r Ysgrifennydd Parhaol gyfrannu at gamau olaf y negodiadau. Roedd hynny'n gyfle pwysig i sicrhau bod y peirianwaith sy'n cael ei ystyried yn gallu cymryd rôl y Gwasanaeth Sifil i ystyriaeth. Helpodd hefyd i sicrhau y gellid cymhwyso'r dyletswyddau a osodir ar y Gweinidogion mewn perthynas â'r Gwasanaeth Sifil hefyd i Aelodau Dynodedig Plaid Cymru.

## 4. Goblygiadau o ran Adnoddau

3.1 Mae Uned y Cytundeb Cydweithio'n cael ei harwain ar lefel Cyfarwyddwr gyda chymorth Dirprwy Gyfarwyddwr a G7 ac i ddechrau tri aelod arall o staff a fydd yn ymgymryd â'u swydd ym mis Ionawr yn dilyn ymarfer datgan diddordeb llwyddiannus. Yn unol â'n polisïau ehangach ar gyfer hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, rydym yn bwriadu i'r Uned gynnal ei busnes mewnol yn Gymraeg. Byddwn yn parhau i ymgynghori ag Ochr yr Undebau Llafur (TUS) ar unrhyw oblygiadau i'r Cytundeb yn yr wythnosau nesaf.

## 4. Risgiau

4.1 Mae datblygu'r cytundeb yn her newydd i staff Llywodraeth Cymru. Mae'r trefniadau gweithio arfaethedig wedi'u cynllunio mewn modd sydd â'r bwriad o adlewyrchu'r dyletswyddau a osodir ar weision sifil i ddarparu cyngor gwrthrychol a diduedd i gefnogi busnes y llywodraeth. Bydd nifer o'r eitemau a gynhwysir yn y Cytundeb hefyd yn creu heriau newydd i dimau. Rydym wedi ceisio sicrhau bod y rhain wedi'u hymgorffori o fewn un Rhaglen Lywodraethu ond bydd yn bwysig bod timau'n parhau â'r gwaith sydd eisoes ar y gweill i sicrhau bod yr adnoddau y mae eu hangen i gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu ar waith.

## 5. Cyfathrebu

5.1 Mae'n bwysig bod cyflawni'r Rhaglen Lywodraethu wedi'i diweddaru yn ganolbwynt i'n gwaith. Bydd hyn yn sicrhau nad oes dryswch ynghylch y blaenoriaethau a bod ymdrech yn cael ei defnyddio o ran ei chyflawni.

5.2 Mae'r Ysgrifennydd Parhaol wedi achub cyfleoedd cynnar i sicrhau bod goblygiadau'r Cytundeb wedi bod yn nodwedd amlwg ar ei ymgysylltiad ag uwch reolwyr dros yr wythnosau diwethaf. Bydd Uned y Cytundeb Cydweithio a Swyddfa'r Cabinet yn chwilio am gyfleoedd i adeiladu ar hyn er mwyn sicrhau bod y Cytundeb yn dod yn rhan o fusnes adrannol bob dydd wrth geisio cyflawni'r Rhaglen Lywodraethu.

## 6. Materion Cydymffurfio Cyffredinol

6.1 Mae'r Cod ar gyfer y rhai nad ydynt yn Weinidogion a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Cytundeb wedi'i seilio'n agos ar God y Gweinidogion sy'n bodoli eisoes. Mae datblygu'r peirianwaith ar gyfer cyflawni'r Cytundeb yn effeithiol hefyd wedi'i lywio gan ofynion Cod y Gwasanaeth Sifil.

**Argymhelliad/argymhellion**

7.1 **Gofynnir i'r Bwrdd: nodi cyhoeddi Rhaglen Lywodraethu estynedig sy'n ymgorffori'r Cytundeb Cydweithio a chyflwyno unrhyw sylwadau ar oblygiadau'r Cytundeb Cydweithio.**

---

**Cyhoeddi**

Dylid cyhoeddi'r papur hwn (gan gynnwys Atodiadau) yn llawn gan nad oes yr un o'r eithriadau yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gymwys.